

Dysgu Yn Yr Oes Digidol

E-bortffolio

Enw Myfyriwr: Gwenan Lloyd

Rhif myfyriwr: 2204035

Enw'r cwrs: BA perfformio

Enw'r modiwl: Dysgu yn yr oes digidol.

Cod y Modiwl: ADPA4001

Dyddiad Cyflwyno: 30/01/23

Gwenan Lloyd

2204035

BA Perfformio

Dysgu yn yr oes digidol

ADPA4001

Tasg 1- Traethawd Adfyfyriol

Ar ôl pwyso a mesur, rwyf wedi penderfynu adfyfyrio fy ngwers actio diweddar gyda fy narlithydd, Tonya Jones. Dechreuwa ein gwrs gyda'n trefn arferol o gynhesu'r corff a'r llais. Rolio'r gwddf a'r ysgwyddau yn gyntaf, yna canolbwyntio ar y breichiau trwy eu symud mewn siâp cylch i un cyfeiriad, yna'r cyfeiriad arall, ac yn olaf i gyfeiriadau gwahanol. Wrth wneud hyn deffra'r cyhyrau yn hanner uchaf y corff yn ogystal â'r ymennydd, gan fod rhaid canolbwyntio i wneud yn siŵr bod y ddwy fraich yn parhau i fynd i gyfeiriadau gwahanol. Ar ôl hyn, symud ymlaen i gynhesu'r wyneb gyda'r dull 'wyneb bach, wyneb mawr', trwy ymestyn y geg mor fawr â phosib ac yna ei wneud mor fach â phosib. Ymlacia hyn gyhyrau'r wyneb, sy'n caniatáu i ni fel actorion greu mynegiant wyneb gwell gan fod y cyhyrau bach wedi deffro.

Yna, symud ymlaen at gynhesu'r llais trwy wneud yr ymarferion '1 2 3 4 5' a 'bella Senior'. Ymarferion effeithiol yw rhain sy'n cynhesu'r llais yn ogystal â gwneud i'r diaffram weithio gan fod rhaid i ni reoli ein anadl er mwyn gallu cynnal yr ymadroddion hir.

Mae'r ymarferion cynhesu yn fuddiol, drwy ein helpu i ymlacio yn ogystal â chynhesu'r cyhyrau a llais. Galluoga hyn i ni anghofio am brysurdeb bywyd a chanolbwyntio'n llwyr ar amcanion y wers. Yn ogystal â hyn, mae bod mewn cyflwr o ymadawriad yn 'caniatáu i'r corff fod yn llawer mwy creadigol' (Merlin, 2007, tudalen 32).

I Orffen y sesiwn cynhesu chwarae gêm 'Splat'. Rhaid sefyll mewn cylch gyda un person, sef y 'splatwr' yn arwain y gêm o'r canol. Mae'r 'splatwr' yn troelli ac yn pwyntio tuag at un person ar hap a gweiddi 'splat!'. Dylai'r person hwn blygu i lawr a'r bobl o bopty iddo yn pwyntio ac yn gweiddi 'spla!' tuag at ei gilydd. Y person olaf i weiddi 'splat!' sy'n colli ac maent allan o'r gêm. Parha'r trefniant yma nes mai dim ond dau o bobl sydd ar ôl. Dyma gêm wych i ddefnyddio ar ddechrau'r wers gan fod unrhyw flinder yn diflannu a cheir y teimlad llawn egni, wrth iddo ofyn am ganolbwynt meddyliol a chorfforol. Cyn mynychu'r ddarlith hon, rwy'n cofio teimlo fymryn wedi blino, ond ar ôl cymryd rhan yn y gêm yma rwy'n cofio teimlo'n llawn egni ac roeddwn yn medru canolbwyntio llawer gwell. Dyma arf pwysig i Stanislavsky wrth iddo ddweud mai medru canolbwyntio yw un o'r 'camau cyntaf sy'n gyffredin i bob artist creadigol' (Stanislafski, tudalen 169).

Ar ôl cynhesu, symudom ymlaen at yr actio. Y dasg oedd llwyfannu cerdd fel grŵp trwy ddefnyddio 'props' Tonya. Y gerdd oedd 'Collage y Stryd' allan o'r llyfr Gair am air gan Tim Baker. Y peth cyntaf wnaethom oedd darllen y gerdd a'i dadansoddi'n ofalus gyda'n gilydd. Dyma gerdd sy'n portreadu bywyd mewn tref arferol. Y rhan nesaf oedd rhannu'r gerdd yn deg rhwng pump ohonom er mwyn sicrhau tegwch. Yna, pawb yn dewis eu rhan, a gan fod neb eisiau cymryd rôl y storiwr, cynigiais i wneud. Yna aethom i edrych ar y 'props' a dewis a dethol pa rai gallwn ddefnyddio yn ein perfformiad. Caniatodd hyn i ni fynd ati i llwyfannu'r gerdd yn syth. Ar ôl tri chwarter awr o drafod ac ymarfer, perfformwyd y darn i Tonya.

Penderfynom gadw'r set yn finimalistaidd wrth ddefnyddio dim ond un cadair trwy gydol y darn. Roedd hyn yn effeithiol wrth iddo roi mwy o sialens i ni fel actorion i greu'r lleoliad a'r awyrgylch drwy'r actio. Er enghraifft er mwyn portreadu prysurdeb tŷ llawn o blant a'r pwysau sydd ar y fam, eisteddais i lawr yn y gadair i ddweud fy llinellau tra roedd pawb arall n rhedeg o gwmpas y llwyfan yn wyllt i gyfleu prysurdeb o fewn y tŷ.

Roedd y pwysau actio yn llai ar y storiwr. Golygai hyn fy mod yn gallu bod yn gyfarwyddwr ar y grŵp. Un enghraifft o hyn yw cywiro safiad un aelod o'r grŵp gan ei bod yn tueddu i sefyll a'i chefn tuag at y gynulleidfa. Wrth gyfarwyddo roeddwn yn naturiol yn cadw pawb ar dasg ac yn sicrhau eu bod yn ymroi a chadw ffocws ar yr actio a'i gymryd o ddifri. Er mai'r storiwr oedd fy mhrif rôl, ces i gyfle i gymeriadu Mam y plant a phlismones yn ogystal o fewn y darn. Teimlaf rhoddodd hyn y cyfle i mi ddangos fy hyblygrwydd fel actores wrth i mi fedru addasu i chwarae sawl rôl o fewn y darn yn rhwydd.

Rwy'n dda am feddwl y tu allan i'r bocs a meddwl am atebion gwreiddiol i broblemau a theimlaf ddefnyddiais y sgiliau yma o fewn y wers. Des i a syniadau ffres i'r ddarlith wrth drafod y sgript yn ogystal â rhoi awgrymiadau i'r ffordd fedrwn ddefnyddio'r 'probs' mewn ffyrdd mwy creadigol yn hytrach na'i defnyddio yn y ffordd mwy 'llythrennol'. Enghraifft o hyn yw pan awgrymais wrth Glain ac Anna i ddefnyddio papurau gwyn gydag ysgrifen ddiddiwedd arnynt fel adenydd er mwyn portreadu'r adar yn hytrach na defnyddio'r sgarffiau ffwr. Trwy wneud hyn pan oeddwn yn dweud y llinell 'Fel adar o'r unlliw yn hedfan drwy'r plwy, drwy'r drysau ar garped y llawr' roedd yn llawer mwy effeithiol wrth iddo symboli'r adar ond hefyd y biliau diddiwedd rhaid i ni fel pobl dalu o ddydd i ddydd.

Braf oedd gwylio clip fideo o'n perfformiad ar ddiwedd y wers er mwyn hunan arfarnu. Teimlaf buaswn wedi gallu cymeriadu'r plismon yn fwy awdurdodol. Man gwan gennyf yw bod yn rhy gynnil wrth gymeriadu oherwydd yr ofn i or actio, a thrwy hynny bod yn rhy fflas yn lle bod yn naturiol. Ond rhaid cofio mae gan'actorion llwyddiannus gryfderau a gwendidau y maen nhw'n eu defnyddio i'w mantais' (O'Brian, 2022). Tuedd hefyd ar brydiau oedd colli ffocws ar y dasg oherwydd ein bod yn ffrindiau agos tu allan i'r dosbarth.

Yn sicr, rwyf wrth fy modd yn mynychu fy ngwersi actio wythnosol. Braf yw cael profi technegau newydd bob wythnos a theimlo fy hun yn datblygu fel actores.

Llyfryddiaeth

<https://actingmagazine.com/2018/04/warm-up-exercises/>

<https://www.stagemilk.com/theatre-warm-ups/>

<https://books.google.co.uk/books?id=mjw9kOHIGcMC&pg=PA9&dq=Theater+for+children&hl=cy&sa=X&ved=2ahUKEwjB7bvX--38AhUySEEAHaYmBcgQ6AF6BAgJEAI#v=onepage&q=Theater%20for%20children&f=false>

<https://www.dramaclasses.biz/bertolt-brecht-techniques-and-factsbertolt-brecht-techniques-and-facts>

Cyfeirnodau

Jeremiah O'Brian (2022). *Strengths And Weaknesses Of An Actor* | *Emerge Global*. [online] Emerge. Available at: <https://emergeglobal.us/strengths-and-weaknesses-of-an-actor/> [Accessed 4 Jan. 2023].

Joseph, L. (2020). *Theatre Games and Warm-Ups - StageAgent*. [online] Stage Agent. Available at: <https://blog.stageagent.com/theatre-games-and-warm-ups/> [Accessed 8 Jan. 2023].

Merlin, B. (2007). *The complete Stanislavsky toolkit*. London Nick Hern Books.

Stanislavski (2013). *Building a character. Reprint*. London: Bloomsbury Academic.

Gwenan Lloyd

2204035

BA Perfformio

Dysgu yn yr oes digidol

ADPA4001

Tasg 2- Adolygiad o sioe

Sioe gerdd sy'n llwyddo i gyfuno comedi a thrasiedi, ofergoeledd a realiti. Perfformwyd Blood Brothers y tro cyntaf deugain mlynedd yn ôl, ac mae'n fwy perthnasol heddiw nag erioed.

Ar Ragfyr y trydydd gwelais Blood Brothers yng Nghanolfan Y Mileniwm yng Nghaerdydd. Roedd awyrgylch bywiog yn y theatr wrth i'r gynulleidfa aros i'r llenni godi. Yn raddol cododd y golau ar y llwyfan, ac yn sydyn roedd tawelwch llethol yn y theatr ac o'r eiliad yma cefais fy nhynnu i mewn i'r llinyn stori.

Sioe Gerdd ychydig o dan dair awr o hyd yw Blood Brothers sy'n adrodd stori gefeilliaid a gafodd eu gwahanu ar enedigaeth, ac oherwydd hyn maent yn byw bywydau tra gwahanol. Mae Eddie yn gyfoethog tra bod Mickey yn dlawd, ond teimla'r ddau atyniad cryf tuag at ei gilydd serch hynny. 'Fel nifer o ddramâu gwleidyddol eraill, mae Russell mewn sawl ffordd wedi ysgrifennu condemnïad o gymdeithas' (Surmise, 2019). Cyffyrdda Russell a'r themâu tlodi, diweithdra a rhaniad y dosbarth gweithiol, sy'n gwneud y sioe yn fwy perthnasol heddiw gyda'r argyfwng costau byw presennol. Heb os, gwna hyn i'r gynulleidfa ymgysylltu gyda'r sioe yn fwy.

Cafodd ei berfformio ar lwyfan bwa proseniwm yn Theatr Donald Gordan, sef yr ail lwyfan mwyaf yn Ewrop! A theg yw dweud bod y gofod wedi'i ddefnyddio'n effeithiol. Dyma'r math o lwyfan mwyaf cyffredin, lle eisteddai'r gynulleidfa ar un ochr i'r llwyfan, gyda'r ochrau eraill yn cael eu defnyddio gan y perfformwyr a'r staff technegol. Caniatâ hyn i'r dylunydd set, Andy Walmsley i arddangos y ddau fywyd gwrthwynebol, gyda thŷ cyngor teulu Mickey ar yr ochr chwith a phlasty hardd teulu Eddie gyda balconi ar yr ochr dde. Digwydda'r rhan fwyaf o'r actio yn y gwagle rhwng y ddau dy. Yn hanner cyntaf y sioe gwelwn Mickey a'i fam, Mrs Johnstone yn eistedd ar y stepen drws yn cael sgwrs, ddim yn hir ar ôl hyn gwelwn Eddie a'i fam ef, Mrs Lyon yn sgwrsio ar y balconi. Symbola hyn eu gwahaniaeth mewn cyfoeth a statws drwy roi Eddie a'i fam ar lefel uwch.

Newidia'r cefndir wrth i'r sioe fynd yn ei blaen, sy'n effeithiol wrth iddo ddatgelu amser, lleoliad a chryfhau'r atmosffer yn yr olygfa. Ar y dechrau, mae'r ddinas fawr i'w weld gyda ffenestri'r adeiladau mawr wedi'u goleuo. Cai'r olygfa hon ei chuddio'n rhannol wrth i ffont metel gael ei ollwng o do'r llwyfan sy'n ymestyn dros led y stryd. Oddi tano mae wal sment tywyll gyda graffiti wedi'i chwistrellu'n anhrefnus sy'n ein hatgoffa o stad ddiwydiannol Lerpwl yn y 1970au.

Ar y cyfan mae'r set yn syml ond effeithiol, trwy wneud hyn sicrhau bod y gynulleidfa'n canolbwyntio ar brif themâu, digwyddiadau a'r rhyngweithio rhwng y cymeriadau o fewn y sioe. Wrth beidio cael unrhyw newidiadau syfrdanol i'r set caniatâ i'r 'lifo ymlaen yn rhwydd ac yn llyfn' (Russel, 2001, ail dudalen). Effeithiolrwydd hyn yw ei fod yn ennyn diddordeb y gynulleidfa trwy gydol y sioe.

Er hyn, ar adegau roedd y set yn rhy syml ar llwyfan yn wag. Gwelwyd hyn yn hanner cyntaf y sioe, lle mae Mrs Johnstone a Mrs Lyons ar eu pen eu hunain yn ymyl eu tai. Credaf byddai hyn yn gweithio'n dda ar lwyfannau llai, ond ar lwyfan mor fawr ag un Theatr Donald Gordon, roedd braidd yn ddiflas a llafurus i'w wyllo.

Cai'r gwisgoedd eu defnyddio hefyd i gyfleu statws cymdeithasol y cymeriadau. Cyferbynna ffedogau tywyll, budur Mrs Johnstone â ffrogiau golau, glan Mrs Lyons. Cyferbynna wisg flêr Mickey hefyd â gwisg ysgol dwt Eddie gyda'i esgidiau disglair. Er hyn, teimlaf fod lle i gryfhau safon y gwisgoedd. Mae'n amlwg fod dillad carpiog Mickey yn ddillad sydd wedi'i ddifrodi'n bwrpasol gyda siswrn ac yn hytrach na bod yn fudur fel y disgwyl iddynt fod maent yn lân, rho hyn ymdeimlad ffals ac afrealistig i'r cymeriad.

'Yn y theatr, mae goleuo'n helpu i gyfleu gwybodaeth bwysig am yr a'r awyrgylch sy'n cael ei greu ar y llwyfan' (Malloy, 2014, tudalen 255). A rhaid canmol Nick Richings am y goleuo effeithiol. Dechreu'r sioe gyda dau olau sbot ar y prif gymeriadau. Effeithiolrwydd hyn yw ei fod yn tynnu ffocws y gynulleidfa at yr elfen bwysicaf ar y llwyfan ac yn gwahanu'r prif gymeriad oddi wrth y cymeriadau a'r set o'u cwmpas. Defnyddi'r golau coch yn aml yn y sioe er mwyn symboli marwolaeth. Gorchuddia olau coch y llwyfan ar ddechrau'r perfformiad wrth i Mickey ac Eddie gael eu cludo ymlaen ar stretsier yr un gyda gorchudd du drostynt. Rho hyn naws ddigalon i'r sioe o'r dechrau wrth iddo amlygu canlyniadau'r cymeriadau hyn nad ydym yn eu hadnabod eto. Yn ogystal â hyn tro'r goleuadau yn y siop lle mae Mickey a Sammy yn gwneud lladrad arfog o wyn i goch ar ôl i sŵn ergydion gwn fynd ffwrdd. Ar ddechrau'r diwedd glo, mae golau coch yn llenwi'r llwyfan unwaith eto sy'n rhagflaenu y lladd oedd ar ddod. Pan agorwyd drws ffrynt Mrs Johnstone llifodd gyfuniad o liwiau tôn melyn a gwyn i'r llwyfan. Dangosa hyn fod bywyd tu hwnt i'r set gan greu ymdeimlad o gynhesrwydd aelwyd er gwaethaf y rhwyg cymdeithasol. Gallai hefyd fod yn symbol o'r hapusrwydd oedd yn y tŷ cyn i'r efeilliaid ddarganfod eu bod wedi'i gwahanu.

Er bod naws digon tywyll i Blood Brothers, amrywia'r gerddoriaeth, gyda chaneuon gobeithiol fel 'Marilyn Monroe' mewn cyferbyniad â chaneuon tristach fel 'My Child', a wnaeth aros y fy ngho ymhell ar ôl i'r perfformiad ddod i ben. Fodd bynnag, teimlais fod y cynhyrchiad yn ceisio bod yn rhy dechnegol effeithiol gyda'r gerddoriaeth ar adegau, yn enwedig gyda'r gân 'Marilyn Monroe'. Credais ei fod yn fotif clyfar ar y dechrau wrth i mi wyllo'r sioe gan iddo fod yn effeithiol i ragfynegi bod rhywbeth drwg ar dro. Ond, yn sydyn iawn newidiodd fy marn ar ôl iddo gael ei ailadrodd cymaint o weithiau nes ei fod yn fy ngyrru o ngho! Yn ogystal â hyn ar adegau, roedd lefelau sain y cynhyrchiad yn ymddangos ychydig yn anghybwys. Roedd adegau pan na ellir clywed y canu dros gerddorfa, er enghraifft yn ystod diwedd y gân 'Shoes Upon The Table', teimlais fod y gerddorfa yn enwedig yr offerynnau taro ar linyddau yn boddi llais yr Adroddwr sef Richard Monday.

Ar bob cyfri, buaswn yn argymhell Blood Brothers i unrhyw un sy'n chwilio am noson llawn teimlad. Dyma sioe o safon sy'n ysgogi chwerthin a chrïo, wnaeth adel y gynulleidfa i roi cymeradwyaeth haeddiannol gan y gynulleidfa a phawb ar eu traed yn y 'finale'. Gyda chost tocynnau yn dechrau o ddim ond £16.40 yr un, mae wir yn werth mynd i'w weld.

Llyfryddiaeth

<https://www.wmc.org.uk/en/your-visit/our-spaces/donald-gordon-theatre>

<https://www.wmc.org.uk/en/whats-on/2022/blood-brothers>

<https://www.wales247.co.uk/review-blood-brothers-wales-millennium-centre-cardiff>

<https://thelightyard.com/blogs/the-blog-of-light/how-lighting-is-used-in-theatre>

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/ztpdbk7/revision/3>

<https://www.kenwright.com/portfolio/blood-brothers-uk-tour-2022/>

<https://thefrontrowcenter.com/2020/11/lighting-and-sound-design-theater-magic/>

<https://kids.britannica.com/students/article/Blood-Brothers/631739>

Cyfeirodau

Mackey, S. and Cooper, S. (2000). *Drama and Theatre Studies*. [online] *Google Books*. Nelson Thornes. Available at:

<https://books.google.co.uk/books?id=8WE8nvjtn1gC&pg=PA150&dq=the+importance+of+lighting+in+theatre&hl=cy&sa=X&ved=2ahUKEwjMwpPM0u38AhUQbsAKHTDYPBaQQ6AF6BAGCEAI#v=onepage&q=the%20importance%20of%20lighting%20in%20theatre&f> [Accessed 10 Jan. 2023].

Russell, W. (2001). *Blood Brothers*. [online] *Google Books*. A&C Black. Available at: https://books.google.co.uk/books?id=uC70k1Z2SBUC&pg=PA2&dq=Blood+Brothers+Production+note&hl=cy&sa=X&ved=2ahUKEwin_-mt4e38AhVOdcAKHZunAOkQ6AF6BAGEEAI#v=onepage&q=Blood%20Brothers%20Production%20note&f [Accessed 18 Dec. 2022].

Malloy, K.E. (2014). *The Art of Theatrical Design: Elements of Visual Composition, Methods, and Practice*. [online] *Google Books*. CRC Press. Available at: <https://books.google.co.uk/books?id=UnA9BAAAQBAJ&pg=PA255&dq=the+importance+of+lighting+in+theatre&hl=cy&sa=X&ved=2ahUKEwjMwpPM0u38AhUQbsAKHTDYPBaQQ6AF6BAGLEAI#v=onepage&q=the%20importance%20of%20lighting%20in%20theatre&f> [Accessed 22 Dec. 2022].

Surmise, E.B.A.W. (2019). *The politics and purpose of 'Blood Brothers'*. [online] Medium. Available at: <https://awildsurmise.medium.com/the-politics-and-purpose-of-blood-brothers-91f7b258f36f> [Accessed 8 Jan. 2023].